## CLWB IEUENCTID




Mae'r tymor hwn wedi bod yn dymor gwych i'r clwb, gyda llawer yn digwydd a'r clwb yn mynd o nerth i nerth. Mae'r niferoedd yn cynyddu bob wythnos.

Y tymor hwn bu i'r clwb gystadlu mewn cystadleuaeth gelf, oedd yn agored i Gonwy gyfan, a'r pwnc oedd cydraddoldeb ac amrywiaeth. Bu i'n grŵp gydweithio ar greu'r darn gwych yma o gelf, sy'n dangos ac yn mynegi gwybodaeth pobl ifanc ar y pwnc.

Felly, drwy sir Conwy gyfan, daeth ein grŵp yn 3ydd – cyflawniad enfawr! Ond hefyd, i mi fel gweithiwr arweiniol, mae'n fy ngwneud yn falch iawn o weld y bobl ifanc yn datblygu bob wythnos ac yn gwneud gwaith mor wych.

Matt Mullender

## DIGWYDDIAD CODI ARIAN AR GYFER 'DOLI YN EI BLODAU'



Diolch yn fawr i bawb wnaeth ddod i'n cefnogi ar y 3ydd o Fai, ac am y rhoddion o wobrau raffl gwych, cacennau, hen drugareddau, lluniaeth ac ati, hefyd am eich amser a'ch ymdrech os oeddech chi'n cymryd rhan. Rhoddodd dri ffrind i 'Dolwyddelan yn ei Blodau' roddion hael gan nad oeddent yn gallu bod yno ar y diwrnod, diolch yn fawr.

Fe wnaethom ni godi dros £600 sy'n wych, byddwn ni'n defnyddio'r arian ar gyfer planhigion, compost ac ailosod dalwyr planhigion ayb o fewn y pentref, er mwyn cadw Dolwyddelan yn hardd. Angie Burke